

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod: 26 Hydref 2023

Teitl: Y Strategaeth Dai - amlinellu gweledigaeth a chynlluniau Ceredigion ar gyfer tai yn y sir dros y 5 mlynedd nesaf.

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023

Cefndir:

Bu Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn ystyried y Strategaeth Dai Leol ddrafft 2023-2028 ym mis Mai 2023.

Yn dilyn cytundeb gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet, dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Dai Ddrafft ar 5 Mai a pharhaodd tan 30 Mehefin 2023. Gofynnodd Arolwg yr Ymgynghoriad gyfanswm o 10 cwestiwn. Daeth cyfanswm o 40 o ymatebion i'r Ymgynghoriad, 34 yn yr Arolwg a 6 drwy e-bost. Nid oedd y cwestiynau yn yr Arolwg yn orfodol, felly nid yw pob cyfanswm yn cyfateb i nifer yr ymatebwyr.

Yn dilyn trafodaeth, ystyriodd yr Aelodau'r argymhelliad canlynol:

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Dai a derbyn yr argymhellion yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a chymeradwyo ei mabwysiadu'n llawn.

Argymhelliad:

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell bod y Cabinet yn

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Dai a derbyn yr argymhellion yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori a chymeradwyo ei mabwysiadu'n llawn.

Rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth dai strategol.

Y Cynghorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach